## ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU

## LEGISLATION COMMITTEE REPORT

# Rheoliadau Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (Diwygio) (Cymru) 2004

Diben y Gorchymyn hwn yw bod y diwygiad a wnaed gan DEFRA i Ddeddf 1981 yn cael ei gymhwyso yng Nghymru hefyd. Roedd Rheoliadau Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (Diwygio) (Cymru) 2004 yn gwneud y diwygiadau i'r Ddeddf sydd wedi'u rhestru (er gwybodaeth) yn yr Atodlen i'r Rheoliadau cyfredol.

Gan bod y Ddeddf yn gymwys i Gymru a Lloegr, rhaid ymgynghori â'r cyngor seneddol ynghylch y diwygiadau a bydd hwnnw fel rheol yn awyddus i sicrhau un testun cyson, hyd yn oed os oes rhai rhannau'n gymwys i Gymru yn unig, rhai eraill i Loegr, a rhai eraill i'r ddau. Yn unol â hynny, roedd Rheoliadau DEFRA yn gwneud diwygiadau i'r Ddeddf, ond wedyn yn eu datgwymhwyso mewn perthynas â Chymru. Mae'r Rheoliadau cyfredol bellach yn dileu'r datgymhwysiad hwnnw mewn perthynas â Chymru er mwyn sicrhau mai un testun sydd i'r Ddeddf. Byddai wedi bod yn bosibl cael yr un canlyniad mewn ffordd haws o lawer, drwy wneud un set o reoliadau ar y cyd gyda DEFRA ar gyfer Lloegr a gyda'r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer Cymru.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi i adrodd arnynt o dan Reol Sefydlog 11.7.

## Glyn Davies AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**29 Mehefin 2004**